O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 1796 (Cy. 172)

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006 (O.S. 2006/2929, Cy.264) drwy amnewid paragraffau 4, 7 a 10 o Atodlen 1. Maent yn darparu na cheir dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu ynghyd â datganiad bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd cyn-sylfaenol, sylfaenol neu ardystiedig oni fydd y tir y'u tyfir ynddo yn rhydd o'r Llyngyr Tatws, a heb ei ddynodi o dan Atodlen 15 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 nac wedi ei ddefnyddio i dyfu tatws am gyfnod penodedig.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau bach yn y tablau yn Rhannau II a III o Atodlen 3.

Ni pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir unrhyw effaith ar y sectorau preifat na gwirfoddol.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1796 (Cy. 172)

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed	*12 Gorffennaf 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*13 Gorffennaf 2010*
Yn dod i rym	*17 Awst 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1) ac (1A) a 36(a) o Ddeddf Amrywogethau a Hadau Planhigion 1964(**1**) sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyflawni ymgynghoriad yn unol ag adran 16(1) o'r Ddeddf honno.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) 2010. Deuant i rym ar 17 Awst 2010 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1964 p.14; diwygiwyd adran 16(1), a mewnosodwyd adran 16(1A), gan adran 4 o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68) a pharagraff 5 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno. *Gweler* adran 38(1) am ddiffiniad "*the Minister*".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol gan erthygl 2 o Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272) ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 4 o Atodlen 1, rhodder—

> **"4.**—(1) Ni cheir dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu sy'n cynnwys datganiad bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd cynsylfaenol o unrhyw ddosbarth oni fydd y swyddog awdurdodedig wedi'i fodloni bod y tir y tyfir, neu y tyfwyd, y tatws hadyd arno yn dir—
>
> (a) y canfuwyd, o ganlyniad i brawf pridd a wnaed gan Weinidogion Cymru cyn plannu'r cnwd, nad yw wedi ei halogi â'r Llyngyr Tatws (rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws);
>
> (b) nad yw wedi ei ddynodi o dan Atodlen 15 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 fel tir wedi ei halogi â phoblogaeth Ewropeaidd o Lyngyr Tatws; ac
>
> (c) nas defnyddiwyd ar gyfer tyfu tatws ar unrhyw adeg yn ystod y 7 mlynedd yn union cyn plannu'r cnwd.
>
> (2) Ond nid yw is-baragraff (1)(a) yn gymwys yn achos tatws hadyd a dyfir mewn cyfrwng di-bridd.".

(3) Yn lle paragraff 7 o Atodlen 1, rhodder—

> "**7.**—(1) Ni cheir dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu sy'n cynnwys datganiad bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd sylfaenol o unrhyw ddosbarth, oni fydd y swyddog awdurdodedig wedi'i fodloni bod y tir y tyfir, neu y tyfwyd, y tatws hadyd arno yn dir—
>
> (a) y canfuwyd, o ganlyniad i brawf pridd a wnaed gan Weinidogion Cymru cyn plannu'r cnwd, nad yw wedi ei halogi â'r Llyngyr Tatws (rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws);
>
> (b) nad yw wedi ei ddynodi o dan Atodlen 15 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 fel tir wedi ei halogi â phoblogaeth Ewropeaidd o Lyngyr Tatws; ac
>
> (c) nas defnyddiwyd ar gyfer tyfu tatws ar unrhyw adeg yn ystod y 5 mlynedd yn union cyn plannu'r cnwd.

(**1**) O.S. 2006/2929 (Cy.264) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/1063 (Cy.112) a 2009/2980 (Cy.259).

(2) Ond nid yw is-baragraff (1)(a) yn gymwys yn achos tatws hadyd a dyfir mewn cyfrwng di-bridd.".

(4) Yn lle paragraff 10 o Atodlen 1, rhodder—

"**10.**—(1) Ni cheir dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu sy'n cynnwys datganiad bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd ardystiedig oni fydd y swyddog awdurdodedig wedi'i fodloni bod y tir y tyfir, neu y tyfwyd, y tatws hadyd arno yn dir—

(a) y canfuwyd, o ganlyniad i brawf pridd a wnaed gan Weinidogion Cymru cyn plannu'r cnwd, nad yw wedi ei halogi â'r Llyngyr Tatws (rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws);

(b) nad yw wedi ei ddynodi o dan Atodlen 15 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 fel tir wedi ei halogi â phoblogaeth Ewropeaidd o Lyngyr Tatws; ac

(c) nas defnyddiwyd ar gyfer tyfu tatws ar unrhyw adeg yn ystod y 4 mlynedd yn union cyn plannu'r cnwd.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1)(a) yn gymwys yn achos tatws hadyd a dyfir mewn cyfrwng di-bridd.".

(5) Yn Atodlen 3, Rhan II—

(a) yng ngholofnau 3 a 4, yn lle'r symbol "—" gyferbyn ag "Y Clwy Tatws (*Phytophthora infestans* (Mont.) de Bary)", rhodder y symbol ")";

(b) yng ngholofn 3, yn lle "3.0%" mewn perthynas â Grwpiau III, IV a V yng ngholofn 1, rhodder "5.0%"; ac

(c) yng ngholofn 4, yn lle "4.0%" mewn perthynas â Grwpiau II, III, IV a V yng ngholofn 1, rhodder "5.0%".

(6) Yn Atodlen 3, Rhan III—

(a) yng ngholofn 3, yn lle "4.0%" mewn perthynas â Grwpiau III a IV yng ngholofn 1, rhodder "5.0%"; a

(b) yng ngholofn 4, yn lle "4.0%" mewn perthynas â Grwpiau II, III, IV a V yng ngholofn 1, rhodder "5.0%".

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

12 Gorffennaf 2010